**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Maria Battle
Cadeirydd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ysbyty Athrofaol Cymru
Parc y Mynydd Bychan
Caerdydd, CF14 4XW

31 Hydref 2017

**Adroddiad er budd y Cyhoedd – Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog**

Annwyl Ms Battle,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Medi 2017 i drafod yr Adroddiad er budd y Cyhoedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sef Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog.

Roedd y Pwyllgor wir yn croesawu'r atebion agored a gonest a roesoch chi a'r Prif Weithredwr, Len Richards, i'n cwestiynau gan i hyn roi hyder i'r Pwyllgor yn ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i'r mater difrifol hwn. Roeddem hefyd yn croesawu cael gweld y cynllun gweithredu yn nodi'r camau i fynd i'r afael â'r diffygion yn adroddiad budd y cyhoedd. O ystyried difrifoldeb y mater hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ynghylch y graddau y rhoddwyd y cynllun gweithredu ar waith mewn chwe mis (Ebrill 2018).

Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n enwedig yn ystod y sesiwn dystiolaeth am ddiwylliant eich bwrdd iechyd ac nad oedd y staff yn gyfforddus yn mynegi eu pryderon ynghylch y mater hwn. Mae'n dda gennym gael sicrwydd eich bod yn rhoi ar waith fesurau i hybu a gwella trefniadau chwythu'r chwiban megis ymestyn y cam diogelu ar gyfer pryderon ynghylch diogelwch cleifion i gynnwys pryderon am ddiffyg cydymffurfiaeth yn ogystal. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch gydnabod nad dim ond mater o gael prosesau a gweithdrefnau ar waith ydyw, ond

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

yn hytrach sicrhau y cânt eu defnyddio a bod pobl yn gyfforddus yn eu defnyddio. Hoffem felly gael rhagor o wybodaeth ynghylch y mesurau a wnaed i wella'r broblem hon o ran diwylliant, ynghyd â'r graddau y gweithredir y mesurau hynny, yr un pryd â'r diweddariad ar y cynllun gweithredu.

Mae eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn nodi eich bod mewn ymateb i'r adolygiad wedi ceisio sicrhau nad oes unrhyw enghreifftiau eraill o arfer gwael, drwy gomisiynu adroddiad archwilio mewnol a thrwy adolygu taliadau unigol lle bo gwerth yr anfoneb dros £5,000 yn ystod y cyfnod 2014-17. Rydym yn nodi i nifer o gontractau gael eu cyfeirio at wasanaeth atal twyll y GIG o ganlyniad i adolygu taliadau, a hoffai'r Pwyllgor gael diweddariad am ganlyniadau'r achlysuron hyn o gyfeirio unwaith i'r ymchwiliadau ddod i ben. Hoffem hefyd gael copi o'r adroddiad archwilio mewnol unwaith iddo gael ei gwblhau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu ysgrifennu at Brif Weithredwr GIG Cymru i gadarnhau'r sefyllfa o ran y broses ar gyfer penodi ar lefel uwch-weithredol â chyflogau uwch na'r cyfraddau cyflog a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.

Yn gywir

Nick Ramsay

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**